# Darpariaeth Effaith Weledol (VIP)
## Prosiect Eryri
## Canllaw i'r Cais

Mawrth 2020



# CANLLAW I'R CAIS

Mae Ofgem wedi cytuno ar set o gymhellion a rheolaethau prisiau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2021 sy'n cynnwys darpariaeth o £500 miliwn i liniaru effaith weledol y seilwaith trydan presennol mewn tirweddau gwarchodedig cenedlaethol ym Mhrydain Fawr. Mae'r National Grid wedi cyfeirio at hyn fel y Ddarpariaeth Effaith Gweledol (VIP).

Mae Prosiect VIP Eryri (y cyfeirir ato yma fel y Prosiect Arfaethedig) yn gyfle pwysig i liniaru effaith weledol y seilwaith trydan presennol ym Mharc Cenedlaethol Eryri ger Minffordd, ac i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth amgylcheddol yr ardal.

Bydd y Prosiect Arfaethedig yn ymestyn 3.5km o dan y ddaear o'r Llinell Uwchben (OHL) 400kV (a 132kV) presennol mewn twnnel cebl o leoliad sy'n agos at Gompownd Selio Pennau Garth (SEC) presennol y National Grid ar ochr orllewinol Aber Dwyryd i Gilfor ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyryd. Yn gryno, mae'r Prosiect Arfaethedig yn cynnwys:

- Twnnel gyda siafft ar bob pen i'r twnnel;
- Tŷ pen twnnel gyda mynediad parhaol ar bob pen i'r twnnel;
- Seilwaith trydan o fewn y twnnel;
- Cebl wedi'i gladdu o dan y ddaear i gysylltu â SEC Garth presennol o dŷ pen twnnel ar ochr orllewinol Aber Dwyryd;
- Ailffurfweddu offer yn SEC Garth presennol;
- SEC newydd ger y tŷ pen twnnel arfaethedig ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyryd;
- Tynnu ac ailosod un peilon ger y SEC arfaethedig newydd ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyryd;
- Tynnu'r OHL a deg peilon (gan gynnwys sylfeini i ddyfnder diffiniedig);
- Cael gwared ar ran o sylfeini'r peilon 4ZC030 a gafodd ei ddatgymalu yn yr Amgylchedd Morol (fel y diffinnir gan Gymedr Penllanw Gorllanw ac y cytunwyd arno gyda Chyfoeth Naturiol Cymru);
- Dargyfeirio asedau trydydd parti er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith uchod;
- Llwybrau mynediad dros dro (gyda gwelliannau posibl i'r priffyrdd) a chompownd adeiladu/ ardaloedd gosod i hwyluso gweithgareddau adeiladu.

Mae'r National Grid yn ceisio cael caniatâd cynllunio llawn ar gyfer elfennau penodol o'r Prosiect Arfaethedig trwy wneud cais cynllunio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (sydd hefyd yn gweithredu ar ran Cyngor Gwynedd) o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer y tai pen twnnel (gan gynnwys mynediad parhaol i'r safleoedd hyn) a'r SEC newydd arfaethedig ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyryd. Bydd y Cais Cynllunio yn caniatáu compowndiau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Bydd ceisiadau am drwydded forol yn cael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith o fewn yr amgylchedd morol yn Aber Dwyryd (fel y diffinnir gan Gymedr Penllanw Gorllanw) o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) 2009.

Mae'r National Grid wedi cynnal Arfarniad Amgylcheddol o'r Prosiect Arfaethedig yn ei gyfanrwydd, i gefnogi'r cais am ganiatâd cynllunio a'r ceisiadau am drwydded forol. Mae'r Arfarniad Amgylcheddol wedi cael ei gynnal yn dilyn canllawiau arfer gorau ac mae'n awgrymu lliniaru a monitro lle pennir bo hynny'n briodol, waeth beth yw'r drefn gydsynio berthnasol.

Mae rhagor o fanylion am y cyfundrefnau cydsynio ar gael ym Mhennod 1 (Cyflwyniad) yr Arfarniad Amgylcheddol. Mae'r cais cynllunio yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- Ffurflen Cais Cynllunio a Lluniadau’r Cais Cynllunio;
- Datganiad Dylunio a Mynediad;
- Datganiad Iaith Gymraeg;
- Crynodeb Arfarniad Amgylcheddol;
- Arfarniad Amgylcheddol Cyfrol 1 Prif Destun;
- Arfarniad Amgylcheddol Cyfrol 2 Atodiadau Technegol;
- Arfarniad Amgylcheddol Cyfrol 3 Ffigurau.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi crynodeb o'r dogfennau ategol sy’n cael eu cyflwyno i gefnogi’r cais cynllunio.

**Tabl 1: Dogfennau Ategol**

| Enw'r Ddogfen | Disgrifiad |
|---|---|
| Ffurflen Cais Cynllunio a Lluniadau’r Cais Cynllunio | Bydd cais ar gyfer y Caniatâd Llawn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael ei gwneud ar gyfer rhannau perthnasol y Prosiect Arfaethedig. Mae Ffurflen Gais 7 wedi’i chwblhau gyda’r cynlluniau ategol gofynnol a bydd yn cael ei chyflwyno i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cynigion yn awdurdodaeth cynllunio Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. |
| Datganiad Dylunio a Mynediad | Paratowyd y Datganiad Dylunio a Mynediad (adroddiad byr, annibynnol) i ddarparu fframwaith i egluro sut mae’r Prosiect Arfaethedig yn addas o ran y safle a’r lleoliad, ac yn esbonio'r egwyddorion a’r cysyniadau dylunio sy’n cael eu defnyddio yn y Prosiect Arfaethedig.<br><br>Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn cynnwys cynlluniau, gweddau, a ffotograffau i ddangos sut cafodd yr egwyddorion dylunio da eu hystyried, ac egwyddorion sy’n ymwneud â defnydd, swm, cynllun, graddfa, tirlunio, golwg a mynediad i’r Prosiect Arfaethedig. |
| Datganiad Iaith Gymraeg | Yn unol â Pholisi PS 1 (yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant) Cyd-gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026) a Pholisi Datblygu 18 (Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau) Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2007 – 2022), paratowyd Datganiad Cymraeg, ac mae’n cael ei ddarparu i gefnogi’r cais cynllunio. |
| Crynodeb Arfarniad Amgylcheddol | Mae'r Crynodeb Amgylcheddol yn ddogfen gryno, annibynnol sy’n darparu crynodeb o ganlyniadau'r Arfarniad Amgylcheddol mewn iaith annhechnegol, ac sy’n ymdrin â'r holl ddisgyblaethau allweddol. Mae’r Crynodeb Amgylcheddol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| Cyfrol 1 – Arfarniad Amgylcheddol | Gwerthuso Amgylcheddol yw’r broses lle mae effeithiau posibl Prosiect Arfaethedig ar wahanol agweddau ar yr amgylchedd perthnasol yn cael eu nodi a’u gwerthuso. Mae’r gyfrol hon yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig cryno, systematig a chydlynol o’r Prosiect Arfaethedig er mwyn dogfennu ei heffeithiau amgylcheddol posibl yn glir. |

| Enw'r Ddogfen | Disgrifiad |
|---|---|
| | Mae'r arfarniad yn benllanw cyfres o astudiaethau, arolygon ac ymgynghoriadau ag ymgynghorwyr statudol ac anstatudol er mwyn:<br>• disgrifio natur yr amgylchedd presennol (gwaelodlin);<br>• nodi effeithiau posibl y Prosiect Arfaethedig ar yr amgylchedd perthnasol;<br>• llunio mesurau lliniaru lle bo angen;<br>• arfarnu graddfa a natur yr effeithiau (gweddilliol) sy'n weddill ar yr amgylchedd.<br>Mae'r Arfarniad Amgylcheddol yn rhoi cyflwyniad, disgrifiad o'r prosiect a methodoleg yr arfarnu. Mae'r penodau dilynol yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaethau technegol a gynhaliwyd fel rhan o'r Arfarniad Amgylcheddol. Trosolwg o liniaru ychwanegol (h.y. lliniaru ychwanegol i'r hyn a ymgorfforwyd i ddechrau yn nyluniad y Prosiect Arfaethedig a mesurau rheoli amgylcheddol y tybir y bydd yn digwydd fel mater o arfer gorau ac yn unol â safonau a chanllawiau'r diwydiant). Nid yw mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori na'r rhai a ystyrir yn arfer gorau yn cael eu trafod yn yr Arfarniad Amgylcheddol, ond maent yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol sy'n Atodiad Technegol i'r Gwerthusiad Amgylcheddol (Cyfrol 2). |
| Cyfrol 2 – Atodiadau Technegol | Mae'r Atodiadau Technegol yn darparu cyfrol atodol i'r Gwerthusiad Amgylcheddol ac mae'n cynnwys gwybodaeth ategol dechnegol y dibynnir arni yn y prif destun (Cyfrol 1) ar ffurf manylion technegol ac allbynnau astudio, methodolegau asesu a data crai.<br>Atodiad Technegol allweddol yw Atodiad 2A, y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (gweler isod). |
| Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (Atodiad Technegol 2A) | Mae'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol yn cyflwyno'r dull a'r gweithredu ar gyfer mesurau rheoli a rheolaeth amgylcheddol a lliniaru ar gyfer adeiladu'r Prosiect Arfaethedig. Mae'r Cynllun Amlinellol yn cwmpasu'r lliniaru (wedi gwreiddio ac ychwanegol) y dibynnir arno yn yr Arfarniad Amgylcheddol, a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i weithredu gan y contractwyr adeiladu. Nod y Cynllun Amlinellol yw sicrhau bod effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol, o gyfnod adeiladu'r Prosiect Arfaethedig, mor fach â phosibl. Dyma brif amcanion y Cynllun Amlinellol:<br>• Darparu mecanwaith ar gyfer sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu cyflawni, er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol a nodwyd yn yr Arfarniad Amgylcheddol;<br>• Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, a nodi lle bydd angen cael awdurdodiad gan gyrff statudol |

| Enw'r Ddogfen | Disgrifiad |
|---|---|
| | perthnasol;<br>• Darparu fframwaith ar gyfer archwilio ac arolygu cydymffurfiaeth i sicrhau bod y nodau amgylcheddol y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni;<br>• Ymateb yn brydlon i unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio ag amodau deddfwriaethol a chynllunio, gan gynnwys adrodd, adfer ac unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol sy'n ofynnol i atal hynny rhag digwydd eto.<br>Mae’r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol yn cynnwys:<br>• Cynllun Rheoli Gwastraff Amlinellol;<br>• Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol;<br>• Asesiad Risg Bioddiogelwch;<br>• Cynllun Rheoli Mawnogydd Amlinellol;<br>• Asesiad Risg Llwch;<br>• Datganiad Dull Ymlusgiaid;<br>• Cynllun Rheoli Cynefinoedd Amlinellol; |
| Cyfrol 3 – Ffigurau | Mae Cyfrol 3 yn gyfrol atodol i'r Arfarniad Amgylcheddol sy’n darparu Ffigurau a lluniadau y dibynnir arnynt ac y cyfeirir atynt ym Mhrif Destun yr Arfarniad Amgylcheddol (Cyfrol 1) ac maent yn gymorth gweledol sy’n cael eu defnyddio i wella dealltwriaeth o wybodaeth a nodir yn yr Arfarniad Amgylcheddol.<br><br>Mae Ffigur 2.1 yng Nghyfrol 3 yn dangos ffin y gwaith arfaethedig yn ystod y cam adeiladu a thynnu'r OHL.<br><br>Mae Ffigur 2.2 yng Nghyfrol 3 yn dangos y datblygiad parhaol arfaethedig. |